

Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

SoNaRR2020 Cofrestru tir fferm amgaeedig pwysau a chyfleoedd allweddol

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chynghor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith dystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein dystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein dystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 Cofrestru tir fferm amgaeedig pwysau a chyfleoedd allweddol**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae'r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

Crynodeb Gweithredol. Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol. Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Acronymau a Rhestr Termau. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 Cofrestru tir fferm amgaeedig pwysau a chyfleoedd allweddol. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#)

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordnans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

Tir Fferm Caeedig

Cofrestr Adnoddau Naturiol

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Mae'r Cofrestrau Adnoddau Naturiol yn allbwn pwysig Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Eu pwrpas yw distyllu'r pwysau a chyfleoedd allweddol a nodwyd yn y penodau a darparu asesiad hygrych o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae Cofrestr Adnoddau Naturiol Tir Fferm Caeedig yn cynnwys dwy ddogfen ychwanegol:

1. SoNaRR2020 Cofrestr tir fferm amgaeedig asesiad o SMNR
2. SoNaRR2020 Register enclosed farmland evidence

Tabl 1 Prif sbardunau, pwysau ac effeithiau ar yr ecosystem tir fferm caeedig

Sbardunau	Pwysau	Effeithiau
Y newid yn yr hinsawdd	1. Newid ym mhatrymau'r tywydd	<p>1.1 Bydd yn cynyddu'r risg o lifogydd yng Nghymru. Asesiad hyder: Uchel Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>1.2 Gallai cyfnodau hir o dywydd sych yn amlach arwain at bwysau cynyddol ar adnoddau dŵr, priddoedd a'r amgylchedd naturiol. Bydd rhai ardaloedd yn gweld cynnydd mewn cynhyrchiant ac eraill yn gweld gostyngiad. Asesiad hyder: Uchel Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>1.3 Rhagwelir y bydd arwynebedd y Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas yn gostwng yn sylweddol o 2050 (senario allyriadau uchel). Asesiad hyder: Isel Nod 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
Y newid yn yr hinsawdd	2. Cynnydd yn lefel y môr	2.1 Bydd yn cynyddu'r risg o lifogydd yng Nghymru. Asesiad hyder: Uchel Nod 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Sbardunau	Pwysau	Effeithiau
Llygredd	3. Llygredd aer	<p>3.1 Yn debygol o achosi effaith niweidiol ar yr ecosystem a'i gwasanaethau Asesiad hyder: Uchel Nod 2 a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>3.2 Yn arwain at asideiddio ac ychwanegu nitrogen at systemau ac effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth ar draws yr holl ecosystemau. Asesiad hyder: Uchel Nod 1, 2 a 3 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
Llygredd	4. Llygredd dŵr	<p>4.1 Yn arwain at gymunedau planhigion llai amrywiol. Asesiad hyder: Uchel Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>4.2 Yn achosi ewtroffigedd ecosystemau dŵr croyw a daearol o wrteithwyr artiffisial ac organig. Asesiad hyder: Uchel Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>4.3 Yn effeithio ar gyflwr y pridd. Asesiad hyder: Canolig Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>

Sbardunau	Pwysau	Effeithiau
Llygredd	5. Llygredd tir	<p>5.1 Yn arwain at gymunedau planhigion llai amrywiol. Asesiad hyder: Uchel Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>5.2 Yn achosi ewtroffigedd ecosystemau dŵr croyw a daearol o wrteithwyr artiffisial ac organig. Asesiad hyder: Uchel Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>5.3 Yn effeithio ar gyflwr y pridd. Asesiad hyder: Canolig Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>
Newid yn nefnydd tir	6. Dwysáu amaethyddol	<p>6.1 Yn arwain at golli cynefinoedd Asesiad hyder: Uchel Nod 1 a 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>6.2 Daw'r ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwyrdd mwyaf yn 2018 yn y sector defnyddio tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF) o drawsnewid glaswelltir i dir cnwd (27%) a chnydau presennol (24%). Asesiad hyder: Canolig</p> <p>6.3 Yn arwain at ostyngiadau ym mhoblogaethau rhywogaethau. Rhywogaethau tir fferm arbenigol yw'r rhai sy'n dirywio'n gyflymaf ymhlith yr holl ecosystemau. Asesiad hyder: Uchel Nod 1 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p> <p>6.4 Yn arwain at golli cynefinoedd a mwy o ddarnio. Asesiad hyder: Uchel Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy</p>

Sbardunau	Pwysau	Effeithiau
Newid yn nefnydd tir	7. Datblygiad a seilwaith adeiledig	7.1 Mae ehangu trefol yn arwain at golli priddoedd gradd uchel ac roedd yn brif ffynhonnell allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y sector defnyddio tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF) yn 2018 (21%). Asesiad hyder: Canolig Nod 1, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
Newid yn nefnydd tir	8. Cystadleuaeth yn nefnydd tir	8.1 Mae creu coetir yn arwain at y posibilrwydd o golli tir amaethyddol wedi'i wella. Asesiad hyder: Canolig Nod 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy 8.2 Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan gynnwys bio-ynni, wedi creu pwysau newydd ar arwynebedd tir cynhyrchiol. Asesiad hyder: Isel Nod 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
Rhywogaethau estron goresgynnol, plâu a chlefyd	9. Plâu a chlefydau	9.1 Mae colledion coed ar fin cyflymu oherwydd clefyd (Chalara) coed ynn. Bydd coed unigol yn cael eu colli a bydd bylchau yn cael eu creu mewn gwrychoedd a choridorau afonol, gan leihau eu cysylltedd a newid y dirwedd. Asesiad hyder: Uchel Nod 2 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
Gorddefnydd	10. Dwysáu amaethyddol	10.1 Newid cynefin, llygredd gwasgaredig i ddŵr, nwyon tŷ gwydr ac allyriadau amonia. Asesiad hyder: Uchel Nod 2, 3 a 4 – rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Cyfleoedd i Weithredu

Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Cadw a chynyddu ardaloedd o gynefin lled-naturiol o fewn ac o amgylch systemau cynhyrchu. Bydd yr ardaloedd hyn o fudd i fioamrywiaeth a gwasanaethau ecosystemau

eraill, gan gynnwys gwell gwasanaethau i dirfeddianwyr fel goddefgarwch sychder a rheoli clefydau.

Cynnal a gwella'r ardaloedd bach sy'n weddill ac sy'n cynnal planhigion âr.

Cynnal a gwella cyflwr pridd a ffrwythlondeb pridd naturiol trwy atal cywasgiad pridd a chadw neu wella deunydd organig pridd o fewn systemau integredig.

Gwarchod pridd trwy weithredoedd fel cnydau gorchudd, rhyng-gnydio, gweithrediadau ffermio wedi'u hamseru'n dda a strivedi clustog.

Darparu mecanweithiau trosglwyddo gwybodaeth effeithiol i hyrwyddo arferion a buddion systemau ffermio cynaliadwy.

Nod 2: Ecosystemau gwydn

Creu rhwydweithiau ecolegol gwydn trwy adfer a chreu cynefinoedd o fewn ac o amgylch systemau cynhyrchu.

Amaeth-goedwigaeth ac ehangu gwrychoedd. Cynyddu nifer y coed a gwrychoedd i ddal a storio carbon a chynyddu gwasanaethau ecosystemau wrth gynnal prif bwrpas cynhyrchu bwyd.

Hyrwyddo rheoli tir sy'n gyfeillgar i natur gyda pherchnogion ceffylau. Mae tua 6% o dir fferm caeedig yn cael ei reoli ar gyfer ceffylau. Ar hyn o bryd, nid yw'r tir hwn yn cael ei ystyried yn y polisi defnydd tir ac yn aml mae'n cael ei reoli'n wael.

Defnyddio a rheoli maethynnau yn gynaliadwy. Defnyddio dadansoddiad pridd, cynllunio maethynnau a dulliau taenu manwl gywir i leihau mewnbynnau artiffisial a bodloni gofynion cnydau.

Hyrwyddo ymyriadau i atal rhyddhau amonia i'r awyr, gan gynnwys gorchuddio storfeydd slyri, cyfyngu gwrteithwyr yn seiliedig ar wrea a chwistrellu slyri.

Nod 3: Lleoedd iach i bobl

Lleihau gwastraff bwyd a hyrwyddo deietau cynaliadwy ac iach. Lleihau'r galw am adnoddau i gynhyrchu bwyd trwy wastraffu llai o fwyd a newid deietau i fwydydd y gellir eu cynhyrchu'n fwy effeithlon a chynaliadwy.

Addasu systemau ac arferion rheoli tir i leihau allyriadau tŷ gwydr trwy fabwysiadu systemau effaith isel fel agroecoleg.

Gwella'r fframwaith gwneud penderfyniadau ynglŷn â newid yn nefnydd tir i helpu i gefnogi cyflenwi yn seiliedig ar le ar gyfer ein Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'n Datganiadau Ardal.

Datrysiadau rheoli dalgylchoedd. Cynnal, gwella ac adfer gorlifdiroedd a systemau hydrolegol i sicrhau gwytnwch ecosystemau a buddion lluosog megis llai o berygl llifogydd a sychder a gwell ansawdd a chyflenwad dŵr.

Nod 4: Economi adfywiol

Newid deietau a chynyddu effeithlonrwydd i alluogi lefelau uwch o gynhyrchu bwyd o ddarn llai o dir. Mae hwn yn opsiwn allweddol i alluogi arferion newidiol ar gyfer y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

Bydd opsiynau integredig sy'n caniatáu ar gyfer cynhyrchu bwyd yn barhaus, ochr yn ochr â buddion amgylcheddol, yn lleihau'r pwysau ar gynhyrchu bwyd. O'r rhain, mae arferion ffermio cynaliadwy ac ehangu'r cydrannau coediog o fewn tir fferm yn darparu nifer o fuddion ar draws gwasanaethau ecosystemau.

Defnyddio a rheoli pridd yn gynaliadwy. Defnyddio ffermio manwl, systemau amaeth-ecolegol fel amaeth-goedwigaeth, systemau coedamaeth effaith isel a systemau garddwriaethol arloesol.

Annog cynhyrchu cnydau a ffermio anifeiliaid integredig i sicrhau defnydd effeithlon o wastraff anifeiliaid a chynnwys carbon pridd gwell mewn priddoedd âr.

Datblygu safonau cynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth sy'n cydbwysu gwella strwythur a gweithrediad ein hecosystemau ochr yn ochr â darparu bwyd, ffeibr a gwasanaethau eraill.

Gwella effeithlonrwydd defnyddio dŵr i leihau'r galw am ddŵr yn ystod cyfnodau o dywydd sych. Annog storio oddi allan i'r prif gyflenwad, cynaeafu dŵr glaw, ac ailgylchu dŵr llwyd.

Darparu mecanweithiau trosglwyddo gwybodaeth effeithiol i hyrwyddo arferion a buddion systemau ffermio cynaliadwy.

Cefnogi arloesedd mewn arferion a thechnoleg i gynyddu effeithlonrwydd cynhyrchu bwyd a phroffidioldeb busnes fferm wrth warchod a gwella gwytnwch a gwasanaethau ecosystemau.

[Cyfnewidiad] Trwy dyfu mwy o gnydau bio-ynni. Byddai hyn yn tynnu tir o gynhyrchu

bwyd. Heb reoli'n ofalus, gallai cynydu bio-ygni gael effeithiau negyddol ar fioamrywiaeth, iechyd pridd ac ansawdd dŵr (Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd, 2020).